Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Busnes / Business Committee

Etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad / Fourth Assembly Legacy

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru / Evidence from the Welsh Government

**Ymateb Llywodraeth Cymru i gais am dystiolaeth y Pwyllgor Busnes - Adroddiad etifeddiaeth ar gyfer y Pumed Cynulliad**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar y cais am dystiolaeth cychwynnol hwn ac mae'n edrych ymlaen at drafodaeth bellach ynghylch yr ymatebion a dderbyniwyd yn ehangach ar yr adeg briodol.

***C1. Yn ystod y Cynulliad presennol, mae'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes wedi cyflwyno nifer o ddiwygiadau gweithdrefnol, gan gynnwys newid y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Llafar y Cynulliad, cyflwyno Dadleuon Aelodau Unigol rheolaidd, a chwestiynau arweinwyr a llefarwyr y pleidiau.***

- ***Pa effaith a gafodd y diwygiadau hyn o ran galluogi Aelodau i gynrychioli eu hetholwyr a dwyn y Llywodraeth i gyfrif?***

**Cwestiynau**

Mae'r newidiadau a wnaed i'r amserlenni ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Llafar y Cynulliad wedi rhoi llawer mwy o gyfle i Aelodau gyflwyno cwestiynau sy'n fwy perthnasol ac amserol. Fodd bynnag, mae yna gwestiynau sy'n gyffredinol eu natur, ac nad ydynt yn amserol iawn, yn dal i gael eu cyflwyno gan Aelodau Cynulliad. Gellid gwneud mwy i roi cyngor a chymorth i Aelodau lunio cwestiynau sy'n bodloni'r meini prawf. Byddai cwestiynau cychwynnol ag iddynt fwy o ffocws hefyd o fudd i'r Aelodau gael atebion mwy perthnasol.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod pryderon aelodau meinciau cefn ynghylch yr effaith y mae cwestiynau arweinwyr a llefarwyr y pleidiau yn ei chael ar gyfyngu ar y cyfleoedd i aelodau meiniciau cefn o bob plaid holi cwestiynau. Fel isafswm, byddem yn cefnogi awgrymiadau na ddylai arweinwyr a llefarwyr y gwrthbleidiau sy'n cael y cyfleoedd hyn gael holi cwestiynau fel aelodau unigol hefyd.

Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod angen adolygu'r broses ar gyfer Cwestiynau Brys. Dylid parchu penderfyniad y Llywydd ond mae diffyg eglurder ymhlith yr Aelodau a'r Llywodraeth ynghylch y meini prawf ar gyfer derbyn Cwestiynau Brys.

**Dadleuon Aelodau Unigol**

Mae cyflwyno Dadleuon Aelodau Unigol rheolaidd wedi cael effaith gadarnhaol ar amrywiaeth y dadleuon yn y Cynulliad, a pha mor amserol ydynt; mae materion ehangach yn cael eu hystyried yn y Siambr ond maent yn dal i fod yn berthnasol i'r mwyafrif. Dylai'r Pwyllgor Busnes barhau i chwarae rôl i gytuno ar y cynigion y dylid cynnal dadleuon yn eu cylch ond dylai'r pleidiau wneud mwy i sicrhau bod pynciau addas yn cael eu cyflwyno ar gyfer dadleuon.

***C2. Am y tro cyntaf, mae strwythur pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad wedi cyfuno craffu ar bolisi a chraffu deddfwriaethol o fewn yr un pwyllgorau.***

- ***Pa mor effeithiol y mae'r dull hwn wedi bod a sut mae'r pwyllgorau wedi sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith craffu ar bolisi, craffu ariannol a chraffu deddfwriaethol?***
- ***Pa newidiadau y gellid eu gwneud i faint a strwythur pwyllgorau yn y dyfodol i'w gwneud yn fwy effeithiol?***

Mae newid i swyddogaeth pwyllgorau sy'n cyfuno polisi a deddfwriaeth yn ystod y Pedwerydd Cynuliad wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan. Mae'r wybodaeth am bwnc sydd wedi'i meithrin gan aelodau unigol pwyllgorau ar draws y pleidiau wedi bod yn fuddiol yn ystod y camau craffu ar rai darnau arbennig o gymhleth o ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, bu yna faterion capasiti o ran amserlennu deddfwriaeth, yn arbennig ar gyfer y pwyllgorau hynny sydd â'r nifer mwyaf o Filiau yn rhan o'u cylch gwaith, fel y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Pe byddai yna newid i bwyllgorau â llai o aelodau, byddai pob aelod yn gallu gofyn cyfresi o gwestiynau a chwestiynau dilynol mwy estynedig a chydlynol, gan wella ansawdd y craffu. Gallai aelodau hefyd baratoi'n well ar gyfer craffu pwyllgorau pe byddai llai o gyfarfodydd ganddynt i'w mynychu.

Cafodd y trefniadau ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft eu datblygu mewn partneriaeth â'r Pwyllgor Cyllid. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod y bydd angen cyfaddawdu bob amser â phwyllgorau er mwyn cynnal cydbwysedd rhwng yr angen i gael digon o amser ar gyfer craffu'n effeithiol a bodloni amserlen y Llywodraeth ar gyfer y gyllideb a'r gofynion ar gyfer gosod y gyllideb derfynol.

***C3. Y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am bennu amserlen y Cynulliad, gan gynnwys amserlennu cyfarfodydd y pwyllgorau. Ar hyn o bryd, cynhelir y Cyfarfod Llawn ar brynhawn Mawrth a phrynhawn Mercher, gyda phwyllgorau yn cwrdd yn bennaf ar fore Mawrth a bore Mercher a dydd Iau.***

- ***A yw amserlen bresennol y Cynulliad, gan gynnwys strwythur yr wythnos waith a sesiynau'r pwyllgorau / Cyfarfod Llawn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran y defnydd o amser y Cynulliad, a chaniatáu iddo gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol o ran deddfu, cynrychioli pobl Cymru a dwyn y Llywodraeth i gyfrif?***

Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol wedi ystyried y mater hwn a bydd y Llywodraeth yn ymateb i'r adolygiad hwnnw ar wahân.

Fel y cânt eu drafftio ar hyn o bryd, mae diffyg hyblygrwydd mewn Rheolau Sefydlog o ran amserlennu Busnes y Llywodraeth cyn toriadau. Gan fod rhaid i gynigion ar gyfer dadleuon ymddangos yn y Datganiad Busnes, a rhaid i gynnig gael ei gyflwyno 5 diwrnod gwaith ymlaen llaw, mae'n ofynnol i'r Llywodraeth restru cynigion ar gyfer dadleuon cyn unrhyw doriad. Yn achos y Pasg a'r haf, yn y drefn honno, mae hyn yn golygu cyflwyno dadleuon ryw 4 neu 9 wythnos ymlaen llaw.

Byddai'r hyblygrwydd i ychwanegu cynigion i’r Datganiad Busnes wythnos cyn dadl, hyd yn oed yn ystod toriad, yn adlewyrchu'r trefniadau presennol ar gyfer trefnu busnes y gwrthbleidiau. Enghraifft arall yw cyflwyno cynigion ar gyfer dadleuon ar Gam 4 Bil, pan fo Rheol Sefydlog yn caniatáu i gynnig gael ei gyflwyno ddiwrnod cyn dadl. Fodd bynnag, rhaid rhestru cynnig yn y Datganiad Busnes hyd at bythefnos ymlaen llaw os yw'n dod yn union cyn neu ar ôl toriad.

***C4. Y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am sefydlu amserlenni ar gyfer pwyllgorau i ystyried Biliau a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.***

- ***A yw'r prosesau presennol ar gyfer amserlennu deddfwriaeth - gan gynnwys Biliau a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol - yn caniatáu ar gyfer craffu priodol ac ymgysylltu gan Aelodau a rhanddeiliaid? A ellid eu gwneud yn fwy effeithiol?***

Mae'r Llywodraeth yn fodlon â'r broses ar gyfer amserlennu Biliau ac mae'n ceisio gweithio gyda'r Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgorau Craffu wrth amserlennu deddfwriaeth. Mae rhai pwyllgorau yn gallu dod o dan bwysau yn achlysurol o ganlyniad i'r llwyth gwaith yn eu meysydd penodol ac mae'r awgrymiadau fel ymateb i gwestiwn 2 yn gwneud rhywfaint i liniaru'r effaith honno. Yn y pen

draw, mater ar gyfer y pwyllgorau, gan ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, yw sut i oresgyn materion amserlennu wrth ymarfer.

O ran Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, mae amserlenni Biliau Seneddol y DU y maent yn berthnasol iddynt y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, wrth reswm. Gall gwelliannau hwyr i Filiau Seneddol mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, yn arbennig, gwtogi ar yr amser a fydd ar gael i'r Cynulliad graffu ar y Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n berthnasol i'r gwelliannau hynny. Mae hyn oherwydd na ellir gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hyd nes y bydd y gwelliannau wedi cael eu cyflwyno yn y Senedd. Os digwydd hyn yn hwyr yn ystod hynt y Bil drwy'r Senedd, gallai olygu mai ychydig iawn o amser fydd ar gael i'r Cynulliad graffu cyn y cam diwygio olaf yn y Senedd.

Mae'r broses a'r ffordd y mae Cynigion Cydysyniad Deddfwriaethol yn cael eu trafod rhwng y Llywodraeth, y Pwyllgor Busnes a Phwyllgorau'r Cynulliad wedi gwella yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. I'r perwyl hwn, mae'r Llywodraeth yn fodlon â'r broses bresennol ar gyfer craffu gan bwyllgorau ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol.

***C5. Yn wahanol i bwyllgorau cyfatebol mewn llawer o deddfwrfeydd eraill, mae Pwyllgor Busnes y Cynulliad yn cyfuno'r swyddogaeth o amserlennu busnes y Cynulliad gyda swyddogaethau 'pwyllgor gweithdrefnau' sy'n gyfrifol am ystyried a chynnig newidiadau i Reolau Sefydlog a gweithdrefnau'r Cynulliad.***

- ***Beth yw manteision ac anfanteision y rôl ddeuol hon, ac a oes achos dros ei hadolygu?***

Mae'r Llywodraeth yn fodlon â'r trefniadau presennol.